## Cyflwyniad i Pedr

**Darllen: Marc 1:16–18; Luc 5:1–11; Ioan 1:40–44;**
**Marc 1:29–34, 5;37, 9:2, 13:3, 14:33–37, 8:29–32; Ioan 6:66–69**

O'r holl ddisgyblion a gafodd Iesu yng ngwlad Palestina, nid oes neb yn fwy adnabyddus na Simon Pedr. Ef gaiff ei enwi gyntaf ym mhob adroddiad o'r efengylau. Yr oedd ei enw Iddewig Simon yn enw cyfarwydd, a rhoddodd Iesu enw Aramaeg iddo, 'Cephas', sydd fel y gair Groeg pétros yn golygu 'craig'. Yn ôl Mathew, digwyddodd hynny yng Nghesarea Philipi pan atebodd Pedr gwestiwn Iesu, a derbyn ei gymeradwyaeth, ond yn ôl Ioan, cafodd yr enw ar ôl y cyfarfyddiad cyntaf yng ngwlad Jwdea. Cymerai Marc yn ganiataol fod pawb yn gwybod pwy oedd Simon Pedr.

Rhydd Marc a Mathew yn fyr hanes galwad Pedr ar lan Môr Galilea, 'Dilyn fi ac mi a'th wnaf yn bysgotwr dynion'. Mae'n werth craffu ar adroddiad Luc, a'r darlun o Pedr fel pysgotwr oedd yn llwyddo i ddal llawer o bysgod, a Iesu yn rhoddi'r addewid iddo, 'O hyn allan fe gei ddal yn rhwyd yr Efengyl lu o bechaduriaid'. Ond yn adroddiad Ioan fe ddaeth Pedr at Iesu trwy ei frawd Andreas yn Jwdea. Yr oedd Pedr yn briod, a'i fam-yng-nghyfraith yn byw yng Nghapernaum. Iachawyd hi gan Iesu. Ond yn hytrach na sôn yn unig am Gapernaum, awgryma Ioan ei bod yn bosibl eu bod wedi byw yn y ddau le.

Ond gydag Iago ac Ioan, cafodd Pedr le pwysig ymhlith disgyblion Iesu. Cawsant brofiadau na chafodd gweddill y disgyblion, yn arbennig ar Fynydd y Gweddnewidiad. Profiad o fawredd Iesu ymhlith cewri'r gorffennol, Moses ac Elias. Yr oedd Pedr bob amser yn danbaid ei ysbryd ac yn gwbl frwdfrydig. Bydd gennym lawer iawn i'w ddweud wrtho, os byddwn yn onest â ni ein hunain. Mi fedrwn ni weld ein hunain yn ei gymeriad, yn ei anwadalwch, a hefyd yn ei awydd mawr i ennill y byd i Grist Iesu. Y mae gennyf feddwl mawr o'r disgybl hwn.

***D. Ben Rees***

## Gweddi yng nghwmni Pedr

Arglwydd Dduw, sy'n ysbrydoli disgyblion dy Fab ym mhob oes, diolch am gael dod yn awr i lerglor gweddi yng nghwmni Simon Pedr, disgybl sydd yn dal i'n cyfareddu heddiw. Fel ef, O Arglwydd, caniatâ i ni awydd a nerth i ymateb i'th alwad i wasanaethu yn y Deyrnas ar y Sul a diwrnod gwaith. Gwna i ni ddyheu am gael dilyn Iesu fel y gwnaeth Simon Pedr, ac amddiffyn ei enw a theimlo'r anrhydedd o ennill deiliaid i'r gymuned Gristnogol Gymraeg.

Teimlai Pedr fod ganddo drysor mawr yn Iesu a'i galwodd yn ddisgybl. Felly ninnau.

'Y mae gennyf drysor,
Gwasanaethu f'oes
Dros y Gŵr fu farw
Unwaith ar y Groes.'

Brawd i ni yw Pedr a Brawd i ni hefyd yw Iesu, ac yr ydym oll yn frodyr a chwiorydd i'n gilydd trwy ei alwad ef i ni yn yr Efengyl. Diolch nad yw 'ef yn gwrthod cais yr isel lef'. Yn ei enw, Amen.

### Tröedigaeth Pedr

**Darllen Mathew 16:17–19; Marc 9:5, 10:28, 14:29–31;**
**Mathew 14:28–31; Ioan 13:36–39, 18:10.**

Gŵr a ddaliwyd yn rhwyd yr Efengyl oedd Simon Pedr. Disgybl a gafodd dröedigaeth. Yn anffodus, mae'r gair tröedigaeth wedi mynd i olygu profiad arbennig iawn. Ond rhaid pwyllo. Ysgrifennwyd cyfrol bwysig iawn ar ddechrau'r ugeinfed ganrif gan seicolegydd o America, William James, *Varieties of Religious Experience*. Y mae'n trafod dau fath o dröedigaeth. Yn gyntaf, y dröedigaeth sydyn fel y digwyddodd i Saul o Darsus ar y ffordd i Ddamascus; profiad ysgytwol, achubol, ail enedigaeth. Ac yna'r dröedigaeth arall, sef yr ymlyniad drwy gartref a chapel o'r crud at wahoddiad yr Efengyl. Yr enghraifft o'r Testament Newydd yw hanes Timotheus. Erbyn heddiw, dros gan mlynedd yn ddiweddarach, mae'r geiriau'n dal yn berthnasol er bod lle i ailddiffinio o hyd.

Cofiaf ddarllen cyfrol o eiddo'r Athro Stephen Neil, rai blynyddoedd yn ôl, yn tanlinellu'r amrywiaeth sydd i brofiadau pobl yr achubiaeth. Cafodd rhai yn eu cenhedlaeth dröedigaeth trwy ddarllen y Testament Newydd o glawr i glawr. Digwyddodd hynny i'r Iddew galluog Hugh Montefiore a ddaeth cyn diwedd ei oes yn Esgob Anglicanaidd Birmingham. Tröedigaeth o Iddewiaeth i Gristnogaeth. Cafodd rhai dröedigaeth fel Awstin Sant, Martin Luther, John Calfin a Karl Barth trwy ddarllen ac astudio'r Epistol at y Rhufeiniaid, ac yn wir fe gyffyrddwyd â chalon John Wesley wrth ddarllen Esboniad Martin Luther ar yr Epistol at y Rhufeiniaid. Hyn a'i harweiniodd maes o law i brofiad cynhesol o'r Efengyl. Tröedigaeth o anghrediniaeth ac agnosticiaeth fel y gwelir yn hanes C. S. Lewis, y sgolor gwych, yn y ffilm *Shadowlands*. Ac felly'r unig beth sydd yn gyffredin i bob un a enwyd yw eu bod wedi cael eu dal yn gyfan gwbl – corff, enaid, meddwl ac ysbryd – yn rhwyd fawr yr Efengyl Gristnogol. A Simon Pedr o Galilea wedi ei ddal gymaint â neb ohonynt.

***D. Ben Rees***

### Gweddi'r Dröedigaeth

O Dduw ein Tad, molwn dy Enw a'th Dystiolaeth, dy Fab a'n Gwaredwr, yr Ysbryd Glân a'i grymusterau am roddi i ni, fel Pedr gynt, brofiad y dröedigaeth. Oni osododd un o'n beirdd yng ngenau Pedr yr alwad hon:

'Clywais ei lef
A rhaid a rhaid oedd ei ddilyn Ef,
Cryfach a thaerach yr alwad hon,
Mwynach, mil mwynach na galwad y don,
Ar noson loerolau ddigyffro ddi-stŵr,
Gadewais y cyfan a dilyn y Gŵr.'

Ac yn nhraddodiad Pedr, gallwn gofio am filoedd ar filoedd o ddisgyblion a adawodd gartref a gwlad i ledaenu'r Gair ym mhellafoedd y ddaear. Cofiwn hefyd am y disgyblion hynny a wasanaethodd y cymunedau Cymraeg fel gweinidogion ac arweinwyr ym mhob enwad; tystion ffyddlon i Iesu Grist mewn erledigaeth ac mewn dyddiau o lwyddiant aruthrol yn hanes yr Efengyl ymhlith y Cymry. Diolchwn am bawb fel Pedr yn ein cylchoedd a safodd yn gadarn dros Grist, ac a ddefnyddiwyd yn helaeth mewn diwygiadau a chyffroadau dwyfol i ddwyn plant, ieuenctid ac oedolion i gorlan y Crist. Dyna pam ein bod ni yn gweddïo am weld rhagor o bobl yn cael profiad y dröedigaeth, trwy

bregethiad y Gair, trwy weddi, trwy gyfarfod â Christ yn y dirgel neu ar lwybr oedfa, trwy astudio Gair Duw, neu ddarllen pob gair o'r Epistol at y Rhufeiniaid, trwy ddylanwad a chyfryngau dynol yn llaw'r Duw Anfeidrol. Dywedwn:

'Enw Iesu sydd yn werthfawr,
Ynddo mae rhyw drysor im;
Enw Iesu yw fy mywyd,
Yn ei enw mae fy ngrym:
Yn ei enw mi anturiaf
Trwy bob rhwystrau maith ymlaen
Yn ei enw mae fy noddfa
Am ei enw bydd fy nghân.'

Gofynnwn hyn oll yn enw Iesu Bendigedig, Achubydd ein heneidiau. Amen.